OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 356 (Cy. 107)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021

*Gwnaed - - - - 18 Mawrth 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 50 a 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**) ac adrannau 22(6), (7), (8), (9), (10), (11) a (12)(**2**) a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**3**).

Yn unol ag adran 174(4) a (5)(f) a (t) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2021 dsc 1. *Gweler* hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) o ran darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

(**2**) Rhoddodd paragraff 28 o Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) y geiriau "Welsh Ministers" yn lle "Secretary of State" yn adran 22.

(**3**) 2000 p. 22.